Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: monitro gan Estyn

**Cylch Meithrin Yr Wyddgrug Mold**
**Clubhouse**
**Park Avenue**
**Mold**
**Flintshire**
**CH7 1RY**
**United Kingdom**

**Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Dilwyn Jones | Cynrychiolydd awdurdod lleol |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Meithrin Yr Wyddgrug wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn mis Mehefin 2011.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r darparwr ymhen tua thri mis i arolygu cynnydd yn ôl yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Adolygu cynllunio'r cwricwlwm fel bod yr addysgu a'r dysgu yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r plant

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae aelodau staff yn cyd-weithio'n dda, gan rannu gwybodaeth am y plant yn gyson yn ystod sesiynau. Mae'r arweinydd yn dechrau deall pwysigrwydd y broses gynllunio ac mae'n rhoi cyfarwyddiadau llafar priodol i'r staff cyn y sesiynau dysgu, er mwyn i bob un ddeall ei rôl.

Yn ddiweddar, mae staff wedi dechrau gwneud defnydd priodol o ddogfennaeth cwricwlaidd a ddarperir gan yr awdurdod lleol wrth gynllunio, er mwyn ceisio sicrhau cyflawniad a datblygiad cydlynol o'r medrau ym mhob elfen o'r meysydd dysgu. Er hynny, mae'n rhy gynnar i fesur effeithiolrwydd hyn ar ddeilliannau plant.

Mae cynlluniau wythnosol sylfaenol mewn lle sy'n ceisio canolbwyntio ar ddatblygu medrau plant ynghyd â nodi gweithgareddau diddorol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon manwl nac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

### Argymhelliad 2: Mireinio'r gweithdrefnau asesu er mwyn nodi datblygiad o fedrau'r plant a'r cam nesaf yn eu dysgu a defnyddio'r wybodaeth hon yn y cynllunio

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae gan pob ymarferydd gyfrifoldeb am asesu grŵp penodol o blant. Maent wedi dechrau arsylwi'n rheolaidd ar y plant sydd yn eu grŵp wrth eu gweithgareddau. Maent yn cofnodi'r arsylwadau'n drefnus mewn llyfryn cofnod cynnydd priodol. Er bod staff yn trafod cynnydd disgyblion o fewn eu gofal yn rheolaidd, ni chofnodir y sgyrsiau hyn. O ganlyniad, nid yw'r asesiadau yn cyfrannu'n ddigon effeithiol i gynllunio'r camau nesaf.

Nid yw gweithdrefnau asesu a chynllunio yn sicrhau dilyniant a pharhâd yn y dysgu ac nid yw'n canolbwyntio'n briodol ar gyfateb tasgau â gallu a chyflawniad blaenorol unigolion. Nid yw staff yn manteisio'n llwyr ar gyfleoedd i adeiladu'n systematig ar fedrau'r disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial.

**Argymhelliad 3: Ymestyn rôl yr arweinyddiaeth i gefnogi staff newydd ymhellach**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gan yr arweinydd ymwybyddiaeth glir o'r angen i arwain staff yn eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwna hyn yn briodol drwy roi cyfarwyddiadau clir ar lafar. Mae taflen briodol mewn lle sy'n nodi trefn y dydd yn glir. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd yn unol â'r angen, er na chofnodir rhain yn ffurfiol.

Mae prosesau anwytho anffurfiol mewn lle i gynorthwyo staff newydd. Mae rhain yn sicrhau bod pob aelod staff yn deall trefn y lleoliad ynghyd â'u rolau penodol yn y rhediad dydd i ddydd. Mae aelodau newydd yn mynychu cyfarfodydd a hyfforddiant perthnasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y profiadau dysgu sydd ar gael i'r plant.

Mae aelodau staff yn cael mewnbwn anuniongyrchol i gynlluniau'r wythnos drwy nodi eu syniadau mewn llyfryn. Mae hyn yn dechrau dylanwadu'n briodol ar weithgareddau dilynol. Mae cyfrifoldebau penodol pob ymarferydd yn glir ar y cynlluniau wythnosol. Mae hyn yn eu galluogi i ddeall yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud ymhob sesiwn.

**Argymhelliad 4: Datblygu a gosod offer yn yr ardal tu allan er mwyn ymestyn profiadau'r plant**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yn ddiweddar iawn, mae gan y lleoliad fynediad i lecyn addas yn yr awyr agored sydd ag arwynebedd chwarae meddal a glaswellt. Mae'r lleoliad bellach yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r plant ddefnyddio'r ardal hon ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymddygiad. Mae staff yn dechrau datblygu gweithgareddau priodol o fewn cynlluniau'r wythnos er mwyn bodloni anghenion y plant. Er hynny, nid yw'r gweithgareddau hyn bob amser yn adeiladu'n systematig ar brofiadau blaenorol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella rhaid gwneud mwy o gynnydd ymhob argymhelliad, drwy ystyried y sylwadau uchod.